**Dr Frank Atherton**
**Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru**
**Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales &**
**Albert Heaney**
**Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Deputy Director General**
**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Ddarparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol am
Wasanaethau Cymorth Cartref yng Nghymru
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

18 Mai 2020

Annwyl gydweithwyr

Rydym yn sylweddoli eich bod yn wynebu heriau mawr wrth barhau i reoli a darparu gofal o ansawdd uchel i bobl yn eu cartrefi eu hunain yn sgil effaith COVID-19. Mae rhai yn dychwelyd gartref o'r ysbyty ac yn derbyn gofal am y tro cyntaf o bosibl, tra bod eraill wedi cael pecynnau gofal ers peth amser. Rydym yn hynod o ddiolchgar am ymrwymiad a gwaith caled y gweithwyr gofal a'r rheolwyr cofrestredig yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Byddwch yn ymwybodol bod Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd taliad o £500 yn cael ei roi i weithwyr gofal cymdeithasol er mwyn cydnabod eu cyfraniad. Gellir gweld y cyhoeddiad yma. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi cyhoeddi cynllun newydd i ddarparu cymorth ariannol i fuddiolwyr staff rheng flaen y maes iechyd a gofal cymdeithasol, pe baent yn marw o COVID-19 o ganlyniad i gyflawni eu dyletswyddau. Gellir gweld y cyhoeddiad yma. Mae manylion y ddau gynllun wrthi'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd, a bydd rhagor o wybodaeth ar gael maes o law.

Rydym yn falch iawn bod cynifer o weithwyr gofal cymdeithasol wedi manteisio ar y cynllun cardiau adnabod, sy'n sicrhau bod gweithwyr gofal yn cael eu cydnabod yn weithwyr allweddol ac felly'n cael mynediad â blaenoriaeth i archfarchnadoedd etc. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. Rydym yn edrych ar ba fanteision eraill y gellir eu cynnig i'r rheini sydd â'r cerdyn adnabod hwn.

Hoffem dynnu eich sylw at y canllawiau diweddaraf sy'n ymwneud â gofal cartref, sydd ar gael drwy'r dudalen Gwybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
Ebost/Email:PSChiefMedicalOfficer@gov.wales

Mae hyn yn cynnwys:-

- Nodyn Cynghori Iechyd Cyhoeddus Cymru - Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ym maes Tai, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a lleoliadau a gefnogir
- Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar Gyfarpar Diogelu Personol ar gyfer gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu erosolau
- Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar Gyfarpar Diogelu Personol ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu erosolau (AGPs)

Gofynnwyd i Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth wrth ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol ar lefel uwch, i unrhyw ddarparwr gofal cymdeithasol sy'n ymgymryd â Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Erosolau. Os oes angen cymorth ar eich sefydliad i ddarparu a defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol penodol ar gyfer Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Erosolau (gŵn llewys hir, anadlwyr FFP2/3, feisorau) ac i brofi'r staff ar sut i ddefnyddio'r masgiau hyn, dylech gysylltu â'ch ymddiriedolaeth neu fwrdd iechyd lleol, all eich cyfeirio at y person priodol yn y tîm lleol.

Rydym yn deall nad oes modd cadw at reolau pellter cymdeithasol wrth ddarparu gofal personol, ac mae cwestiynau wedi cael eu codi am weithwyr gofal yn teithio ac yn gweithio mewn parau. Mae'r canllawiau newydd hyn gan Lywodraeth y DU ar weithio yng nghartrefi pobl eraill yn ymateb i'r materion hyn.

Caiff gwybodaeth bellach ynghylch y disgwyliadau ar wasanaethau cymorth cartref, er enghraifft sut y gall yr Unigolyn Cyfrifol gyflawni ei gyfrifoldebau monitro ar yr adeg hon, ei hamlinellu yn y Cwestiynau Cyffredin ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Gofynnwyd i ni a oes modd i bobl sydd ar ffyrlo weithio ar gyfer darparwyr gofal heb golli'r 80% o'u cyflog y maent yn ei dderbyn. Pan fo contract yr unigolyn yn caniatáu hynny, gall ymgymryd â math arall o gyflogaeth. Dylech gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth y DU ar ffyrlo. Yn ogystal, rydym wedi cadarnhau yn ddiweddar bod yr holl weithwyr yn y sector gofal yn gallu defnyddio'r cynllun ffyrlo ar gyfer eu staff lle y bo hynny'n briodol. Caiff hyn ei amlinellu yma.

Yn y dyddiau digynsail hyn, mae gwasanaethau darparwyr, ar y cyd â byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, o dan bwysau eithriadol i ddarparu gofal a chymorth i bobl agored i niwed sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Gall hyn gynnwys mwy o hyblygrwydd o ran sut y mae darparwyr yn cynnig gofal ond gan sicrhau bod hyn yn diwallu anghenion pobl. Rydym yn gwybod bod rhai pobl wedi lleihau neu wedi gwrthod eu pecynnau gofal oherwydd bod ganddynt aelodau o'u teulu gartref, a gallai hyn newid wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith y tu allan i'r cartref.

Mae Gweinidogion yn llawn sylweddoli'r pwysau ariannol a fydd ar ddarparwyr o ganlyniad i COVID-19. O ganlyniad, sicrhawyd bod darpariaeth gychwynnol o £40 miliwn ar gael i awdurdodau lleol i'w helpu i dalu'r costau ychwanegol y mae darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn eu hwynebu. Bydd hyn mewn meysydd fel costau staff ychwanegol neu reoli heintiau'n fwy trylwyr. Mae amlinelliad o hyn ar gael yma. Anfonwyd rhagor o wybodaeth am hyn at gynrychiolwyr darparwyr yn ddiweddar, ac roedd yn cynghori darparwyr i siarad â'r awdurdodau lleol sy'n eu comisiynu am unrhyw gostau ychwanegol yr oeddent yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig hwn. Gellir gweld yr wybodaeth hon yma.

Mae rhai awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau cymorth cartref i roi meddyginiaethau fel rhan o'u dyletswyddau gofal personol. Meddyginiaethau yw'r rhain a ddiffinnir yn yr

Egwyddorion arweiniol cenedlaethol ar gyfer cymorth meddyginiaethau yn y sector gofal yn y cartref (ADSS Cymru). Rydym yn cydnabod bod yna nifer o ystyriaethau i gomisiynwyr a darparwyr wrth ofyn i weithwyr gofal ymgymryd â'r tasgau hyn.

Gall polisïau gael eu hadolygu yn ystod cyfnod yr argyfwng hwn ac wedi hynny er mwyn cynyddu capasiti'r gweithlu i'r eithaf a lleihau nifer yr ymweliadau â chartrefi pobl.

Er mwyn cynorthwyo hyn, mae hyfforddiant ar-lein ar roi meddyginiaethau ar gael drwy wefan fferylliaeth Addysg a Gwella Iechyd (Cymru) yma. Mae'r hyfforddiant cryno hwn wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer gweithwyr gofal y gall fod galw cynyddol arnynt i gynorthwyo gyda meddyginiaethau neu i'w rhoi.

Mae rhestr wirio ar roi meddyginiaethau ar gael ar y wefan er mwyn ysgogi gweithwyr gofal i roi meddyginiaethau mewn modd diogel, a gall rheolwyr ddefnyddio hon i'w sicrhau eu hunain bod unigolyn yn gymwys. Gall fferyllwyr ddarparu dalenni Cofnodion Rhoi Meddyginiaethau (MAR) wrth roi meddyginiaeth mewn pecynnau gwreiddiol, er mwyn hybu cofnodi cadarn gan weithwyr gofal, ac mae'r rhain ar gael ar gais.

Noder mai dim ond pan fydd staff gofal wedi derbyn hyfforddiant penodol ac y bernir eu bod yn gymwys i ymgymryd â'r dasg y dylid dirprwyo tasgau nyrsio. Amlinellir gwybodaeth berthnasol yn y canllawiau dirprwyo a ddatblygwyd ar gyfer staff iechyd a gofal. Mae cymorth ychwanegol o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol bod asesiad risg y cytunwyd arno ar y cyd, a chamau gwarantu eraill, yn eu lle er mwyn amddiffyn yr unigolyn a'r gweithiwr gofal.

Mae'r cyrff rheoleiddio a phroffesiynol perthnasol wedi cyhoeddi cyngor sy'n cydnabod y pwysau eithriadol sydd ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd ac yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r cyd-destun os gwneir camgymeriadau neu gamsyniadau a lle gall unigolion fod yn gweithio heb y lefelau cymorth arferol. Mae hyn yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a datganiad ar y cyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Fel y byddem i gyd yn ei ddisgwyl, bydd yr awdurdodau perthnasol yn mynd ar drywydd unrhyw amheuaeth o esgeulustod a niwed bwriadol bob amser, a hynny er mwyn cynnig amddiffyniad a sicrwydd i bobl sy'n derbyn gwasanaethau, cyflogwyr a'r cyhoedd.

Unwaith eto, hoffem ddiolch a mynegi ein gwerthfawrogiad i bawb ohonoch sy'n parhau i drefnu a darparu gofal i bobl agored i niwed yn eu cartrefi yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn.

Yn gywir

**DR FRANK ATHERTON**
**Prif Swyddog Meddygol**

**ALBERT HEANEY**
**Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol**

**Copi at:** Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol